
Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deisebau**

# **Pwyllgor y Bobl:** Adroddiad Gwaddol

Mawrth 2026




senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddDeisebau**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Deisebau**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **Deisebau@senedd.cymru**
X: **@SeneddDeisebau**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2026**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deisebau**

# **Pwyllgor y Bobl:** Adroddiad Gwaddol

Mawrth 2026

senedd.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddDeisebau**

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Carolyn Thomas AS**
Llafur Cymru



**Rhys ab Owen AS**
Aelod Annibynnol



**Vaughan Gething AS**
Llafur Cymru



**Joel James AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Lindsay Whittle AS**
Plaid Cymru

# Cynnwys


**Rhagair y Cadeirydd ............ 7**

**Argymhellion ............ 9**

**1. Strategaeth ac Ymgysylltu ............ 11**

Byddwn yn blaenoriaethu gwaith a all olygu newid gwirioneddol i'n cymunedau. ............ 11

Byddwn yn bwyllgor gweladwy sy'n mynd allan ac yn ymgysylltu â phobl ledled Cymru. ............ 13

Byddwn yn annog deisebau o ansawdd uwch a all lywio polisi, a hyrwyddo enghreifftiau llwyddiannus o ddeisebau sy'n arwain at newid polisi. ............ 15

**2. Ffyrdd o weithio ............ 17**

**3. Llais y deisebwyr ............ 19**

**4. Blaenoriaethau ar gyfer y Seithfed Senedd ............ 21**

Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a niwroamrywiaeth ............ 21

Rhaglenni iechyd a sgrinio menywod ............ 22

Darparu gwasanaethau iechyd a dwyn Byrddau Iechyd i gyfrif ............ 22

Cynaliadwyedd ariannol addysg uwch ............ 23

Rheoleiddio amgylcheddol a pholisi ............ 24


Trafnidiaeth Ddiogel a Hygyrch a diogelwch ffyrdd ............ 25

Lles anifeiliaid ............ 26

**Atodiad 1 : Rhestr o ddadleuon o dan arweiniad y Pwyllgor ............ 28**

**Atodiad 2: Aelodaeth y Pwyllgor yn ystod y Chweched Senedd ............ 31**

## Y Pwyllgor yn y Chweched Senedd



**FAINT O GYFARFODYDD PWYLLGOR FFURFIOL A GYNHALIWYD?**

**75**



**FAINT O DYSTION A RODDODD DYSTIOLAETH I'R PWYLLGOR?**

**86**



**FAINT O DDIGWYDDIADAU/ YMWELIADAU Â RHANDDEILIAID A GYNHALIWYD?**

**7**



**FAINT O ADRODDIADAU A GYNHYRCHWYD?**

**14**



**FAINT O DDADLEUON A GYNHALIWYD?**

**37**



**FAINT O DDEISEBAU NEWYDD A YSTYRID?**

**411**

# Rhagair y Cadeirydd

Nid yw dylanwad a phwysigrwydd proses Ddeisebau'r Senedd erioed wedi bod yn fwy arwyddocaol. Mae'r Senedd hon wedi gweld y broses yn aeddfedu, gan gyrraedd uchafbwyntiau newydd o ran poblogrwydd, a rhoi cyfleoedd newydd i leisiau pobl Cymru gael eu clywed.

Mae gwaith y Pwyllgor Deisebau yn ystod tymor y Senedd hon wedi rhoi proffil newydd i ddeisebau. Rydym wedi gweld deisebau unigol yn casglu degau o filoedd o lofnodion, sydd wedi gosod yr agenda. Rydym wedi gweld deisebau tawelach sydd wedi gwneud gwahaniaeth, ac wedi sbarduno newidiadau mewn polisi a chyfreithiau newydd; ac rydym wedi gweld amrywiaeth eang o faterion lleol yn cael eu codi ar y llwyfan cenedlaethol.

Dros y pum mlynedd diwethaf, mae pobl Cymru wedi gosod recordiau newydd ar gyfer creu deisebau, ac wedi torri'r record flaenorol ar gyfer nifer y llofnodion. O ganlyniad i hyn, rydym wedi cynnal mwy o ddadleuon a arweinir gan ddeisebau nag erioed o'r blaen. Senedd newydd, oes newydd, cyfleoedd newydd i leisiau pobl Cymru gael eu clywed.

Roedd fy rhagflaenydd, Jack Sargeant, yn hoffi galw'r Pwyllgor Deisebau yn "Bwyllgor y Bobl". Gobeithio bod y gwaith rydym wedi'i wneud yn y Senedd hon wedi rhoi syniad i bobl o pam. Pan rydym wedi gallu mynd allan ac ymweld â deisebwyr, rydym wedi gallu clywed yr angerdd dros welliant sy'n bodoli ym mhob cwr o'r genedl.

Fel cyn-ddeisebydd fy hun, wnes i erioed amau y gallai deisebau wneud gwahaniaeth. Ond fel Cadeirydd, rydw i wedi gweld yr amrywiaeth o bethau y gellir eu cyflawni: deisebau sydd wedi datgloi'r cyllid sydd ei angen i achub heneb; deisebau sydd wedi gorfodi cyrff cyhoeddus i ailfeddwl neu egluro eu cynlluniau'n well; deisebau sydd wedi dod yn llaw-fer ar gyfer penderfyniadau polisi amhoblogaidd; a deisebau sydd wedi rhoi llwyfan inni ddwyn ynghyd awdurdodau, a'r rhai sy'n gorfod byw gyda'u penderfyniadau, er mwyn gwneud penderfyniadau gwell. Rydym wedi tynnu sylw at rai enghreifftiau ac astudiaethau

achos ym Mhennod 4, gan arddangos gwahanol ganlyniadau a gyflawnwyd gan ddeisebau.

Nid yw deisebwyr bob amser yn cael yr ateb y maent am ei gael. Ond mae'r broses yn helpu i ddwyn penderfynwyr i gyfrif am eu penderfyniadau, ac yn eu gorfodi i egluro pam maent yn credu mai'r camau y maent wedi'u cymryd yw'r rhai cywir.

Yn ystod y pum mlynedd, rydym hefyd wedi gweithio i adolygu ein prosesau ein hunain yn rheolaidd, er mwyn sicrhau bod y ffocws ar y deisebau hynny lle gallwn wneud gwahaniaeth, a cheisio osgoi ein caethiwo gan y broses o ysgrifennu llythyrau diddiwedd lle bynnag y gallwn.

Hoffwn ddiolch i'r holl Aelodau sydd wedi gwasanaethu ar y Pwyllgor yn ystod y tymor, a diolch yn arbennig i Jack Sargeant am ei waith yn sefydlu'r Pwyllgor newydd yn 2021 – a'i osod ar drywydd newydd.

Ond yn fwy na dim, hoffwn ddiolch i'r deisebwyr – pobl Cymru a oedd â gweledigaeth y gellid gwneud pethau'n wahanol, eu gwneud yn well, ac a ddangosodd y dewrder i ddilyn y freuddwyd honno. A diolch i bawb a lofnododd y 400+ o ddeisebau newydd a ystyriwyd gan y Pwyllgor dros y pum mlynedd diwethaf. Ar adeg pan fo llawer o sinigiaeth ynglŷn â gwleidyddiaeth, fe wnaethoch y penderfyniad i gymryd rhan, a chodi eich llais. Dwi'n falch eich bod wedi gwneud hynny. Ac rwy'n gobeithio y byddwch yn gwneud hynny eto.




**Carolyn Thomas AS**
Cadeirydd



# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Gwneud gwahaniaeth:

Mae amser pwyllgorau'r Senedd yn gyfyngedig, a rhestr ddiddiwedd o bethau'n cystadlu am eu sylw. Credwn fod ymrwymo i edrych yn fanwl ar nifer fach o ddeisebau lle mae potensial i ychwanegu gwerth gwirioneddol wedi talu ar ei ganfed yn y Senedd hon. Byddem yn annog Aelodau o'r Seithfed Senedd i feddwl am sut y gallant ddatblygu'r ffordd hon o weithio, er mwyn sicrhau y gall y Pwyllgor barhau i neilltuo amser i edrych yn fanylach ar ddeisebau sydd â'r potensial i gael effaith fawr. .......... Tudalen 12

**Argymhelliad 2.** Blaenoriaethu ymweliadau:

Gall fod yn heriol neilltuo amser i gynnal ymweliadau, a threulio amser gyda deisebwyr, gan glywed eu straeon. Ond ym mhob achos, mae gwneud hyn wedi arwain at ddealltwriaeth llawer dyfnach o'r hyn sy'n digwydd, ac ystyriaeth fwy trylwyr o'r ddeiseb. Byddem yn annog Aelodau o'r Seithfed Senedd i feddwl am ba fecanweithiau y maent yn dymuno eu defnyddio i glywed llais deisebwyr a rhannu eu profiadau. .......... Tudalen 13

**Argymhelliad 3.** Parhau i adolygu'r trothwyon:

Yn sgil ein hadolygiad ein hunain, rydym yn fodlon bod y trothwyon presennol yn gweithio'n dda, ond nodwn fod nifer y dadleuon ar gyfer deisebau wedi bod yn cynyddu'n araf flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mater i'r Senedd nesaf fydd penderfynu ar gydbwysedd yr amser a gaiff ei dreulio yn gweithio mewn pwyllgor ac yn y Cyfarfod Llawn. Gallai penderfyniadau a wneir yno gynyddu neu leihau'r amser sydd ar gael i drafod deisebau, ac efallai y bydd yr Aelodau am adolygu'r trefniadau unwaith y bydd yr amserlen newydd wedi ymsefydlu. .......... Tudalen 18

**Argymhelliad 4.** Pwyllgor penodedig:

Mae'r Pwyllgor hwn wedi cael ei argyhoeddi gan fanteision cael pwyllgor penodedig i ymdrin â deisebau. Er y bydd rhagor o wybodaeth a dealltwriaeth o'r materion polisi yn y pwyllgorau pwnc, bu nifer o achlysuron lle mae pwyllgor nad oes ganddo rwymedigaethau i graffu ar gyllidebau a deddfwriaeth wedi gallu ymateb mewn modd mwy ystwyth i faterion a godwyd gan ddeisebwyr. Mater i Aelodau o'r Senedd nesaf fydd penderfynu sut i ddyrannu cyfrifoldebau i bwyllgorau – byddem yn eu hannog i sicrhau bod pwyllgor sy'n ymdrin â deisebau yn cael ei sefydlu cyn gynted â phosibl. .......... Tudalen 18

**Argymhelliad 5.** Aelodaeth Pwyllgorau:

Roedd y Pwyllgor hwn yn cynnwys pedwar Aelod yn wreiddiol, ond tyfodd i bump yn ystod y Senedd hon. Mae'r Cadeirydd wedi rhannu'r farn gyda Fforwm y Cadeiryddion a'r Pwyllgor Busnes bod aelodaeth o fwy na phedwar wedi helpu'n fawr i sicrhau cworwm, a rhannu'r llwyth gwaith yn well rhwng yr aelodaeth.

..........Tudalen 18

# 1. Strategaeth ac Ymgysylltu

Mae'r bennod hon yn myfyrio ar ddull strategol y Pwyllgor o ymdrin â'i waith, y ffordd y mae wedi mynd i'r afael â'i amcanion strategol, a gwersi ar gyfer pwyllgorau'r dyfodol.

**1.** Yng nghyfarfodydd cychwynnol y Pwyllgor, a osododd y patrwm ar gyfer tymor y Senedd hon, cytunodd yr Aelodau ar y nodau a ganlyn:

- Byddwn yn blaenoriaethu gwaith a all olygu newid gwirioneddol i'n cymunedau.
- Byddwn yn bwyllgor gweladwy sy'n mynd allan ac yn ymgysylltu â phobl ledled Cymru.
- Byddwn yn annog deisebau o ansawdd uwch a all lywio polisi, a hyrwyddo enghreifftiau llwyddiannus o ddeisebau sy'n arwain at newid polisi.

**2.** Y nodau hyn a osododd fframwaith ar gyfer gwaith y Pwyllgor, ac maent wedi parhau i fod yn seren i dywys y rhaglen waith.

## Byddwn yn blaenoriaethu gwaith a all olygu newid gwirioneddol i'n cymunedau

**3.** Mae'r Aelodau'n cael rhestr o ddeisebau sydd ar y gweill ar ddiwedd pob cyfarfod, gan ganiatáu iddynt adolygu pa ddeisebau fyddai'n dod, neu a oedd yn casglu llofnodion yn gyflym. Mae hyn yn golygu y gallai'r Aelodau flaenoriaethu gweithio ar y deisebau hynny sydd â'r potensial i ddod â newid gwirioneddol, gofyn am bapurau sy'n edrych ar opsiynau ar gyfer gwaith manwl, a gwahodd tystiolaeth ehangach ar o leiaf un ddeiseb bob tymor.

**4.** Dros gyfnod y Senedd hon, mae'r Pwyllgor wedi tynnu sylw at nifer o ddeisebau ar gyfer ymchwiliad manwl. Mae hyn wedi arwain at gyhoeddi 11 o adroddiadau gydag argymhellion i'r Llywodraeth, ac ambell i ddarn arall o waith lle cafodd gwaith y Pwyllgor o gasglu tystiolaeth ei oddiweddyd gan

ddigwyddiadau ac mae wedi cael ei symud ymlaen gan bwyllgorau eraill y Senedd, neu awdurdodau allanol.[1]

**5.** Mae'r ffordd hon o weithio wedi arwain y Pwyllgor i gasglu tystiolaeth, cyhoeddi adroddiadau a gwneud argymhellion i'r awdurdodau perthnasol ar gyfer newid gwirioneddol. Yr enghraifft ddiweddaraf yw gwaith y Pwyllgor sy'n edrych ar brofiad bywyd deisebwyr sy'n byw ger Safle Tirlenwi Hafod, ger Wrecsam. Daeth y gwaith hwn ag amrywiaeth o randdeiliaid ynghyd, a herio'r holl asiantaethau dan sylw i edrych eto ar brofiadau beunyddiol eu cymdogion. Ein gobaith yw y bydd yr argymhellion a wnaethom yn arwain at welliannau i ansawdd bywyd pobl sy'n byw yn agos at safleoedd tirlenwi ledled Cymru.

**6.** Mae rhestr lawn o adroddiadau'r Pwyllgor ar gael ar ein gwefan - Gwaith wedi'i gwblhau gan y Pwyllgor

**7.** Mae'r rhestr hon yn cynnwys ein gwaith ar P-06-1253 Gwahardd rasio milgwn yng Nghymru. Mae Bil i gyflwyno gwaharddiad yn mynd drwy gamau olaf gwaith craffu'r Senedd.

**8.** Mae ein gwaith manwl hefyd wedi edrych ar atal boddi, ffonau clyfar mewn ysgolion, ac effaith cymdeithas sy'n troi'n gynyddol at beidio defnyddio arian parod – yn enwedig ar y rhai sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau. Ystyriodd y pwyllgor fanteision wythnos waith pedwar diwrnod, incwm sylfaenol cyffredinol i'r rhai sy'n gadael gofal, a thrafnidiaeth gyhoeddus am ddim i bobl ifanc – gyda Llywodraeth Cymru wrthi'n treialu prisiau bws o £1 i bobl o dan 21 oed.

**Argymhelliad 1.** Gwneud gwahaniaeth:

Mae amser pwyllgorau'r Senedd yn gyfyngedig, a rhestr ddiddiwedd o bethau'n cystadlu am eu sylw. Credwn fod ymrwymo i edrych yn fanwl ar nifer fach o ddeisebau lle mae potensial i ychwanegu gwerth gwirioneddol wedi talu ar ei ganfed yn y Senedd hon. Byddem yn annog Aelodau o'r Seithfed Senedd i feddwl am sut y gallant ddatblygu'r ffordd hon o weithio, er mwyn sicrhau y gall y Pwyllgor barhau i neilltuo amser i edrych yn fanylach ar ddeisebau sydd â'r potensial i gael effaith fawr.

[1] Er enghraifft, cyfrannodd y Pwyllgor dystiolaeth yr oedd wedi'i chasglu ar P-06-1291 Cynnal ymchwiliad i'r pryniant corfforaethol o'r proffesiwn milfeddygol yng Nghymru i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd i lywio ei ymchwiliad marchnad i wasanaethau milfeddygol ar gyfer anifeiliaid anwes, a disgwylir iddo gyhoeddi ei adroddiad yn ystod gwanwyn 2026.

## Byddwn yn bwyllgor gweladwy sy'n mynd allan ac yn ymgysylltu â phobl ledled Cymru.

**9.** Roedd cyfyngiadau cyfnod COVID yn golygu nad oedd yn bosibl mynd allan ar unwaith ac ymgysylltu'n rhy agos â phobl. Er enghraifft, bu'n rhaid oedi'r traddodiad o gyfarfod â deisebwyr mewn digwyddiad trosglwyddo ar risiau'r Senedd, ond mae bellach wedi dychwelyd.

**10.** Dros gyfnod y Senedd hon, mae'r Aelodau wedi cynnal nifer o ymweliadau â safleoedd. Weithiau mae'r rhain wedi cael eu harwain gan y Cadeirydd yn unig, ac ar adegau eraill gan grwpiau o Aelodau. Weithiau mae hyn wedi golygu dod â rhanddeiliaid ynghyd ar y safle (e.e. Castell Sycharth, safle tirlenwi Hafod, Camlas Sir Fynwy a Brycheiniog) fel y gall gwahanol grwpiau gael gwell dealltwriaeth o'r problemau, a'r rhwystrau rhag gweithredu.

**11.** Mae'r Aelodau wedi cyfarfod yn aml â deisebwyr cyn trafod eu deiseb – a chael cipolwg go iawn o'r straeon person cyntaf, a realiti emosiynol profiad byw. Mae hyn wedi golygu clywed gan bobl sy'n byw gydag effeithiau corfforol ac emosiynol bywyd ger chwarel weithredol neu mewn tai islaw'r safon, gan ymgyrchwyr lles anifeiliaid sydd eisiau amddiffyn eu hanifeiliaid anwes, gan ymgyrchwyr sy'n ceisio rhagor o gefnogaeth i blant byddar neu bobl sydd ag anableddau dysgu. Gall y straeon fod yn ddirdynnol, yn dorcalonnus, yn rhwystredig, ac weithiau'n ysbrydoli. Ond maent yn aros yn y cof mewn ffyrdd y gall hyd yn oed y geiriau sydd wedi'u hymchwilio'n fwyaf trylwyr ac sydd wedi'u hysgrifennu'n fwyaf hardd ar dudalen ei chael yn anodd eu cyflawni.

**Argymhelliad 2.** Blaenoriaethu ymweliadau:

Gall fod yn heriol neilltuo amser i gynnal ymweliadau, a threulio amser gyda deisebwyr, gan glywed eu straeon. Ond ym mhob achos, mae gwneud hyn wedi arwain at ddealltwriaeth llawer dyfnach o'r hyn sy'n digwydd, ac ystyriaeth fwy trylwyr o'r ddeiseb. Byddem yn annog Aelodau o'r Seithfed Senedd i feddwl am ba fecanweithiau y maent yn dymuno eu defnyddio i glywed llais deisebwyr a rhannu eu profiadau.

**12.** Mae'r Pwyllgor hefyd wedi gallu elwa o'r gwaith ymgysylltu a wnaed gan staff arbenigol yn y Senedd. Cafodd ein gwaith ar ffonau symudol yn yr ysgol ei gyfoethogi gan grwpiau ffocws a gynhaliwyd gyda disgyblion, athrawon a staff mewn ysgolion ledled Cymru. Roedd y sail dystiolaeth hon yn golygu ein bod, wrth siarad â rhanddeiliaid, yn gallu tynnu ar brofiad yr ysgolion hynny lle'r oedd gwaharddiad eisoes mewn grym.

**13.** Yn ogystal â'r cysylltiadau rheolaidd sydd gennym i rannu gwybodaeth â phwyllgorau eraill y Senedd, rydym hefyd wedi elwa o gysylltiadau cryf â Senedd Ieuenctid Cymru. Er enghraifft, rhoddodd tystiolaeth a gasglwyd ganddynt ar drafnidiaeth gyhoeddus am ddim i bobl ifanc, gan gynnwys arolygon helaeth o ddisgyblion a rhieni, fewnwelediadau cryf ar gyfer ein gwaith yn cwestiynu ffigurau o'r diwydiant bysiau a'r llywodraeth yng Nghymru a'r Alban, mewn ymateb i ddeisebau a ddaeth i law.

**14.** Rydym hefyd wedi gweithio i hyrwyddo deisebau a deisebu, drwy ein gwaith yn y cyfryngau, a thrwy chwilio am gyfleoedd i arddangos llwyddiant – er enghraifft, roedd deisebau'n amlwg yn arddangosfa Eich Llais; 25 mlynedd y Senedd.[2]

**15.** Mae'r Pwyllgor wedi ceisio meithrin cysylltiadau â seneddau eraill y DU. Cyfarfu'r Aelodau â'u cymheiriaid o Bwyllgor Deisebau Senedd y DU ym mis Mai 2024, i drafod eu ffyrdd o weithio a rhannu syniadau. Mae staff y Pwyllgor Deisebau o'r pedair gwlad wedi datblygu rhwydwaith rhyngseneddol i rannu'r wybodaeth a'r datblygiadau diweddaraf o ran deisebu cyhoeddus.




[2] https://senedd.cymru/senedd-nawr/newyddion/dathlu-pwer-defnyddio-eich-llais/

## Byddwn yn annog deisebau o ansawdd uwch a all lywio polisi, a hyrwyddo enghreifftiau llwyddiannus o ddeisebau sy'n arwain at newid polisi.

**16.** Mae tîm clercio'r Pwyllgor yn gweithio gyda deisebwyr, lle bo modd, i sicrhau bod deisebau mor glir â phosibl o ran yr hyn y maent yn gofyn amdano. Gall y dull hwn sicrhau nad yw deisebau'n cael eu gwrthod yn hawdd pan fyddant yn cyrraedd desg y rhai sydd mewn grym.

**17.** Fel rhan o'n myfyrdod ar waith y Pwyllgor ar gyfer yr adroddiad hwn, rydym wedi gwneud rhai awgrymiadau i ddiwygio rheolau deisebu – gan gynnwys tynhau'r rheol bresennol sy'n ymwneud â pholisi cynllunio; er y gall y broses ddeisebu fynd i'r afael â'r materion hyn, nid dyma'r ffordd briodol o fynd i'r afael â phenderfyniadau cynllunio unigol, hyd yn oed pan fyddant yn ymwneud â Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol. Rydym hefyd wedi awgrymu rhai newidiadau i'r ffordd o ddisgrifio'r broses, er mwyn hyrwyddo eglurder.

**18.** Mae gwaith ymchwil academaidd a wnaed gan Brifysgol Leeds, ac a gefnogwyd gan y Pwyllgor, wedi ysbrydoli nifer o newidiadau, hefyd, yn y ffordd rydym yn gwneud pethau. Tynnodd y gwaith sylw at yr angen i wella dealltwriaeth o ddeisebau ymhlith cyflogeion y Senedd sy'n wynebu'r cyhoedd – ac mae staff y Pwyllgor wedi gweithio i gryfhau cysylltiadau â'r adrannau hynny. Byddwn yn parhau i rannu rhestrau wedi'u diweddaru o ddeisebau poblogaidd a/neu lwyddiannus.

**19.** Tynnodd y gwaith sylw hefyd at y ffordd y gall jargon, neu iaith anghyfarwydd, fod yn rhwystr rhag cyfranogiad. Mae mwy o waith i'w wneud yn y maes hwn, ac mae adolygiad o'r iaith a ddefnyddir mewn llythyrau templed at ddeisebwyr, ac ar y wefan ddeisebau, wedi'i gynllunio ar gyfer eleni.

**20.** Yn ystod y tymor hwn, ychwanegodd y Senedd swyddogaeth mapio newydd at ei gwefan ddeisebau, gan ddangos ar unwaith ble mae deisebau'n cael eu llofnodi. Mae'r swyddogaeth hon yn cael ei diweddaru i adlewyrchu newidiadau yn ffiniau etholaethau'r Senedd o fis Mai 2026.



# 2. Ffyrdd o weithio

## Mae pwyllgorau effeithiol yn adolygu eu ffyrdd o weithio i sicrhau eu bod yn gwneud defnydd da o'u hamser.

**21.** Cyflwynwyd y system ddeisebu ar-lein yn ystod y Bumed Senedd, ac roedd yn nodi newid sylweddol yn y ffordd y cychwynnwyd deisebau, ac y casglwyd llofnodion. Drwy wneud y system yn haws, fe wnaeth hefyd alluogi'r cynnydd enfawr a welwyd gennym mewn creu deisebau, a chyfanswm y llofnodion a gasglwyd.

**22.** Mae proses y Pwyllgor yn parhau i fod yn seiliedig ar y system a gyflwynwyd bryd hynny. Lle bo angen, mae mân newidiadau wedi'u gwneud i'r trothwyon ar gyfer ystyried deiseb – ond mae'r trothwyon presennol (250 i'w hystyried gan y Pwyllgor, 10,000 i'w hystyried ar gyfer dadl mewn Cyfarfod Llawn) wedi bod yn effeithiol. Maent yn sicrhau ffocws ar ddeisebau sy'n dangos lefel ystyrlon o gefnogaeth gymunedol, ond heb osod rhwystr amhosibl i ddeisebau lleol.

**23.** Mae'r trothwy o 10,000 o lofnodion ar gyfer trafodaeth yn sicrhau bod lefel sylweddol o gefnogaeth i'r deisebau hynny sy'n cael eu trafod. Mae'r Pwyllgor wedi'i gwneud yn glir nad yw gofyn am ddadl yn benderfyniad awtomatig, ac ar adegau penderfynodd nad dadl fyddai'r ffordd fwyaf priodol o fwrw ymlaen â'r ddeiseb. Yn yr un modd, bu achosion (e.e. sgrinio am ganser y fron) lle mae materion sydd â chymaint o bryder a brys i'r cyhoedd, fel bod yr Aelodau wedi ceisio cyflymu dadl cyn gynted â phosibl.

**24.** Mae ein gwaith dros y pum mlynedd diwethaf hefyd wedi tynnu sylw at bwysigrwydd cydweithio â phwyllgorau eraill y Senedd, rhanddeiliaid allanol, a gwaith grwpiau trawsbleidiol seneddol a gweithgorau arbenigol eraill. Mewn rhai achosion, mae pwyllgorau eraill y Senedd wedi ymgymryd â'r gwaith craffu manwl, neu mae Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau wedi llwyddo i dynnu sylw at faterion yn y Siambr. Mewn achosion eraill, mae'r Aelodau unigol wedi helpu deisebwyr i ennill mwy o sylw drwy eu cyfranogiad yng ngrwpiau trawsbleidiol y Senedd. Roedd ein digwyddiad i randdeiliaid a oedd yn edrych ar p'un a ddylid gwahardd ffonau clyfar mewn ysgolion wedi dod ag ymarferwyr o bob cwr o Gymru ynghyd i holi am her gymdeithasol gymhleth iawn – mynediad plant at y cyfryngau cymdeithasol. Fe wnaethom gynnal sesiwn debyg yn edrych ar y

materion sy'n ymwneud â theithio ar fysiau am ddim i bobl ifanc. Hefyd, gwnaeth y Pwyllgor ddarn pwysig o waith ar ffioedd annheg o ran rheoli ystadau, gyda mewnbwn amhrisiadwy gan Hefin David AS, ymgyrchydd hirdymor ar y mater hwn. Rhannwyd canfyddiadau'r ymchwiliad gyda chydweithwyr seneddol yn San Steffan, a'r gobaith yw y bydd y ddeddfwriaeth arfaethedig yn dod â system decach i berchnogion tai yng Nghymru a Lloegr.

**25.** Fel rhan o'n hadolygiad diwedd tymor, mae'r Pwyllgor yn dymuno gwneud tri argymhelliad pellach.

**Argymhelliad 3.** Parhau i adolygu'r trothwyon:

Yn sgil ein hadolygiad ein hunain, rydym yn fodlon bod y trothwyon presennol yn gweithio'n dda, ond nodwn fod nifer y dadleuon ar gyfer deisebau wedi bod yn cynyddu'n araf flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mater i'r Senedd nesaf fydd penderfynu ar gydbwysedd yr amser a gaiff ei dreulio yn gweithio mewn pwyllgor ac yn y Cyfarfod Llawn. Gallai penderfyniadau a wneir yno gynyddu neu leihau'r amser sydd ar gael i drafod deisebau, ac efallai y bydd yr Aelodau am adolygu'r trefniadau unwaith y bydd yr amserlen newydd wedi ymsefydlu.

**Argymhelliad 4.** Pwyllgor penodedig:

Mae'r Pwyllgor hwn wedi cael ei argyhoeddi gan fanteision cael pwyllgor penodedig i ymdrin â deisebau. Er y bydd rhagor o wybodaeth a dealltwriaeth o'r materion polisi yn y pwyllgorau pwnc, bu nifer o achlysuron lle mae pwyllgor nad oes ganddo rwymedigaethau i graffu ar gyllidebau a deddfwriaeth wedi gallu ymateb mewn modd mwy ystwyth i faterion a godwyd gan ddeisebwyr. Mater i Aelodau o'r Senedd nesaf fydd penderfynu sut i ddyrannu cyfrifoldebau i bwyllgorau – byddem yn eu hannog i sicrhau bod pwyllgor sy'n ymdrin â deisebau yn cael ei sefydlu cyn gynted â phosibl.

**Argymhelliad 5.** Aelodaeth Pwyllgorau:

Roedd y Pwyllgor hwn yn cynnwys pedwar Aelod yn wreiddiol, ond tyfodd i bump yn ystod y Senedd hon. Mae'r Cadeirydd wedi rhannu'r farn gyda Fforwm y Cadeiryddion a'r Pwyllgor Busnes bod aelodaeth o fwy na phedwar wedi helpu'n fawr i sicrhau cworwm, a rhannu'r llwyth gwaith yn well rhwng yr aelodaeth.

# 3. Llais y deisebwyr

Deisebwyr a rhanddeiliaid sydd yn y sefyllfa orau i egluro gwerth y broses ddeisebu iddynt - mae rhywfaint o'u hadborth wedi'i nodi isod.

> *"Er ein bod yn siomedig nad yw dirymiad y drwydded wedi'i weithredu, mae ymgyrchwyr a thrigolion lleol yn gwerthfawrogi'n fawr pa mor ddifrifol yw'r Pwyllgor wrth archwilio'r pryderon a fynegwyd a'r argymhellion a wnaed. Mae gwaith y Pwyllgor wedi bod yn hanfodol wrth sicrhau bod lleisiau cymunedol yn cael eu clywed ar lefel genedlaethol."*
>
> *Steve Gittins, prif ddeisebydd P-06-1510 Dylid cyfarwyddo Cyfoeth Naturiol Cymru i ddirymu'r drwydded amgylcheddol a sicrhau bod Enovert a'i Safle Tirlenwi'r Hafod yn Wrecsam yn cau.*
>
> *"Diolch am wrando ar fy neiseb ar 8 Rhagfyr ac am ei chadw ar agor. Noson ddi-gwsg arall neithiwr wrth i'r cwlfert orlifo unwaith eto, gweler y fideos ynghlwm, ac roedden ni a thrigolion eraill allan yn rhoi bagiau tywod ar ein heiddo. Galwyd y cyngor allan yn oriau mân y bore ond ni allent wneud dim gan fod 'y dŵr yn rhy ddwfn'! Allwn ni ddim mynd ymlaen fel hyn! Diolch am eich cefnogaeth barhaus."*
>
> *Sue Kerslake, prif ddeisebydd P-06-1428 Stopiwch y llifogydd yn Cae Nant Terrace, Sgiwen NAWR!*
>
> *"Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch yn ddiffuant i'r pwyllgor am eich cefnogaeth a'ch ymrwymiad i sicrhau bod teuluoedd yng Nghymru sy'n colli eu plentyn neu berson ifanc yn cael cynnig o gefnogaeth ar unwaith. Rydym wrth ein bodd bod y drafodaeth ar y ddeiseb wedi arwain at ymrwymiad i sicrhau bod cefnogaeth yn dod yn gynnig gorfodol. Hoffwn estyn fy niolch i Gadeirydd y Pwyllgor, Jack Sargeant, am gefnogi'r ddeiseb ac i'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, Lynne Neagle, am ddatgan y camau gweithredu ar gyfer newid. Rydym ni yn 2wish wrth ein bodd gyda'r canlyniad cadarnhaol ac yn edrych ymlaen yn fawr at weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau trawsbleidiol i weithredu newid ledled*

*Cymru i sicrhau bod pob teulu yn cael y cynnig gorfodol o gefnogaeth yn ystod yr amseroedd tywyllaf."*

*Rhian Manning MBE, Prif Swyddog Gweithredol 2Wish a phrif ddeisebydd P-05-912 Cynorthwyo teuluoedd sy'n colli plant a phobl ifanc yn sydyn ac yn annisgwyl*

*"...ar ran BMA Cymru a Choleg Nyrsio Brenhinol Cymru. Rydym yn diolch i chi fel Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau am waith craffu eich Pwyllgor hyd yma ar y materion a godwyd gan [y] ddeiseb."*

*Deiseb ar y cyd BMA Cymru/Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru P-06-1534 Rhoi diwedd ar ofal mewn coridorau yng Nghymru*

*"...diolch i chi a'r Pwyllgor Deisebau am y gefnogaeth amhrisiadwy yn ystod ein hymgyrch i sicrhau dyfodol Camlas Sir Fynwy a Brycheiniog. Rydym yn ddiolchgar iawn am sylw'r Pwyllgor Deisebau i'r mater ac am eich eiriolaeth drwy gydol yr ymgyrch. Mae cyfraniad y gamlas o dros £30 miliwn y flwyddyn i economi Cymru a chefnogaeth i fwy na 1,000 o swyddi wedi'i ddiogelu, a chyfrannodd cefnogaeth y Pwyllgor yn fawr at gyflawni'r llwyddiant hwn."*

*Paul Thomas, deisebydd P-06-1525 Diogelu cymeriad unigryw Camlas Sir Fynwy a Brycheiniog ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru*

*"Credwn yn gryf yng ngwerth y broses ddeisebu wrth gryfhau llais a dylanwad dinasyddion dros bolisi cyhoeddus"*

*Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru*

*"...mae'r Pwyllgor Deisebau yn cyflawni rôl hanfodol yn nemocratiaeth ein gwlad. Mae'n bwysig bod gan bob un o ddinasyddion Cymru gyfle i leisio eu pryderon os oes ganddynt broblemau gyda gweithredoedd unrhyw gorff cyhoeddus.*

*Conffederasiwn GIG Cymru*

*"...mae gwaith y Pwyllgor yn rhan bwysig a sefydledig o fywyd democrataidd Cymru."*

*Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg*

# 4. Blaenoriaethau ar gyfer y Seithfed Senedd

Ymhlith y cannoedd o ddeisebau a ystyriwyd gennym roedd nifer o themâu allweddol yn codi fwy nag unwaith drwy gydol y Senedd hon.

**26.** Mewn rhai meysydd polisi mae'r un pryderon wedi parhau i godi, naill ai oherwydd bod deisebwyr yn teimlo nad yw materion anodd eu datrys yn cael eu datrys, neu oherwydd bod cynnydd wedi bod yn rhwystredig o araf. Mewn achosion eraill mae'r llinellau atebolrwydd wedi arwain deisebwyr i gwyno eu bod yn troi mewn cylchoedd yn chwilio am atebion i'w pryderon. Isod mae rhai materion allweddol o'r Senedd hon, y disgwylir i'r Senedd nesaf fynd i'r afael â hwy.

**27.** Mewn rhai achosion rydym wedi dewis cadw deiseb ar agor a'i chyfeirio at y Seithfed Senedd i'w hystyried ymhellach. Awgrymwyd hefyd fod lle i Bwyllgor Deisebau yn y dyfodol ystyried sesiynau craffu mwy 'thematig' sy'n canolbwyntio ar nifer o ddeisebau sy'n adlewyrchu materion tebyg (fel sy'n digwydd yn yr Alban). Gallai hyn fod yn arbennig o werthfawr os nad yw'r pwyllgor polisi arbenigol perthnasol mewn sefyllfa i gynnal ei waith craffu ei hun (e.e. oherwydd ei fod yn craffu ar ddeddfwriaeth).

## Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a niwroamrywiaeth

**28.** Mae diwygiadau addysg wedi gwneud ADY yn bwnc llosg yn ystod y tymor hwn. Mae ymgyrchwyr wedi rhoi'r diwygiadau ADY a'r materion sy'n deillio o hynny ar yr agenda yn rheolaidd. Mae hyn yn ychwanegol at y gwaith craffu manwl a gynhaliwyd drwy gydol y Senedd gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Rydym hefyd wedi ystyried deisebau sy'n edrych ar fynediad at asesiad a meddyginiaeth ADHD, ffonau clyfar mewn ysgolion, llwybrau hyfforddi ar gyfer athrawon disgyblion byddar / disgyblion sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain, mynediad at arian parod, a rhoi cleifion awtistig yn y system gadw.

**29.** O ystyried effaith bellgyrhaeddol y diwygiadau, a'r gwaith parhaus i fynd i'r afael â phryderon ar bob lefel o'r system addysg, ymddengys yn sicr y bydd deisebau pellach ar y pwnc hwn yn nhymor y Senedd nesaf.

## Rhaglenni iechyd a sgrinio menywod

**Astudiaeth Achos:** P-06-1243 Adfer sgrinio serfigol i bob tair blynedd

Yn dilyn y cyhoeddiad ar 4 Ionawr 2022 am newid mawr i weithdrefnau sgrinio serfigol yng Nghymru, sicrhaodd y ddeiseb hon (y gyntaf o chwech a gyflwynwyd ar y mater) 30,133 o lofnodion mewn ychydig ddyddiau. Mewn ymateb, gwnaeth y Pwyllgor y penderfyniad anarferol i ofyn am ddadl yn y Cyfarfod Llawn cyn gynted â phosibl. Cynhaliwyd y ddadl ar 19 Ionawr (fel arfer, ni fyddem yn disgwyl cadarnhau dadl cyn 4-5 wythnos) a bu'n llwyfan ar gyfer cynnal sgwrs genedlaethol am y pryderon a godwyd gan fenywod mewn ymateb i'r cyhoeddiad gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

**30.** Mae deisebwyr wedi codi proffil llawer o faterion arwyddocaol ym maes iechyd menywod – mae gwasanaethau endometriosis, adenomyosis a menopos i gyd wedi cael sylw, ynghyd â mynediad at sgrinio am ganser y fron. Bydd gweithredu Cynllun Iechyd Menywod 10 mlynedd Llywodraeth Cymru yn hanfodol i fynd i'r afael â'r materion hyn.

**31.** Mae'r Pwyllgor hefyd wedi ystyried deiseb lwyddiannus a oedd yn hyrwyddo rhaglen sgrinio ar gyfer canser yr ysgyfaint yng Nghymru, a chefnogi deisebwyr a oedd yn ceisio gwelliannau i wasanaethau epilepsi.

**32.** Cafwyd un ymgyrch i wella triniaeth canser y fron metastatig – o dan arweiniad y deisebydd Tassia Haines – ac arweiniodd hyn at wella'r gwaith o gasglu data yn ymwneud â'r math hwn o ganser, a llwybrau gofal newydd.

## Darparu gwasanaethau iechyd a dwyn Byrddau Iechyd i gyfrif

**33.** Mae hyn wedi bod yn thema ar draws holl fyrddau iechyd Cymru – lle mae cleifion wedi defnyddio system ddeisebau'r Senedd i sicrhau bod penderfynwyr y gwasanaethau iechyd wedi eu clywed, y tu allan i'r prosesau ymgynghori traddodiadol.

**34.** Mae Gweinidogion wedi bod yn fwyfwy clir mai mater i'r bwrdd iechyd yw penderfyniadau gweithredol – sy'n golygu ei bod yn hollbwysig i Aelodau'r Bwrdd a swyddogion gweithredol fod yn agored ac yn atebol. Rhyngddynt, mae byrddau iechyd Cymru yn gwario dros hanner y gyllideb ddatganoledig, ac yn gyson yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar fywyd a marwolaeth.

**35.** Mae deisebau wedi bod yn rhan o ymgyrchoedd yn gwrthwynebu newidiadau i wasanaethau brys mewn ysbytai o Fronglais i Nevill Hall, o ward Dyfi yn Ysbyty Tywyn, i Ysbyty'r Tywysog Philip. Rydym wedi cael sawl deiseb ynghylch mynediad at Unedau Mân Anafiadau (yn llwyddiannus ar gyfer agor Uned Mân Anafiadau Aberteifi dros y penwythnos), ac ar Ambiwlans Awyr Cymru, Gofal mewn Coridorau, Deintyddiaeth, gwasanaethau Meddyg Teulu, gofal strôc, a meddyginiaeth salwch beichiogrwydd (Xonvea). Mae pum deiseb fyw ar hyn o bryd yn ymwneud â chynigion i ad-drefnu gwasanaethau meddygon teulu mewn gwahanol gymunedau gwledig, neu sy'n herio rheolaeth gyffredinol o'r system.

**36.** Mae deiseb yn ymwneud â newidiadau a fydd yn effeithio ar ysbyty Llwynhelyg wedi cyrraedd dros 10,000 o lofnodion yn gyflym tua diwedd y tymor hwn, ac mae'r Pwyllgor hwn yn argymell bod ei olynydd yn gofyn am ymateb gan y llywodraeth newydd a dadl ar y ddeiseb yn gynnar yn y Senedd newydd.

**37.** Nid oes consensws ynghylch sut i bontio'r bwlch rhwng ofnau deisebwyr bod eu gwasanaethau lleol yn cael eu hisraddio, a chyfrifoldebau byrddau iechyd i ddarparu gwasanaethau diogel a chynaliadwy, a chydbwyso'r cyfrifon. Mae nifer o'r deisebau hyn wedi tynnu sylw at yr heriau sy'n ymddangos yn amhosibl o ran recriwtio staff i ardaloedd gwledig, ac aneffeithiolrwydd canfyddedig ymgynghoriadau – yn enwedig pan fydd ymgyrchwyr yn anghytuno'n gryf â'r canlyniadau.

**38.** Yn ddiweddar, ystyriodd y Pwyllgor ddeiseb ar 'Reol Martha' - a gyflwynwyd yn ysbytai'r GIG yn Lloegr i roi llwybr i deuluoedd cleifion gael ail farn ar gyfer pryderon brys ynghylch gofal a diogelwch cleifion mewnol. Rydym wedi gofyn i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol argymell adolygiad yn y dyfodol o gyflwyno'r hyn sy'n cyfateb i Reol Martha yng Nghymru – o'r enw 'Call4Concern' – i gofnodi dysgu cynnar a sicrhau y gwrandewir ar deuluoedd ledled Cymru.

## Cynaliadwyedd ariannol addysg uwch

**39.** Er bod Prifysgolion yn gyrff annibynnol, mae materion ynghylch eu hatebolrwydd i Weinidogion a'r cyhoedd ehangach hefyd wedi codi.

**40.** Pan gyhoeddodd Prifysgol Caerdydd ymgynghoriad ar doriadau i wahanol adrannau a chyrsiau, o fewn wythnos, roedd pedair deiseb ar wahân yn galw ar Weinidogion i weithredu. Fe wnaeth y cynnig i gael gwared ar addysgu israddedig o gampws Llambed gan Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant hefyd sbarduno protestwyr i ddeisebu'r Senedd.

**41.** Drwy rannu ein deisebau gyda'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, roedd hyn wedi galluogi Aelodau o'r Senedd i graffu ar yr holl faterion hyn, a'r cwestiwn ehangach o sut i ariannu Addysg Uwch.

**42.** Casglodd deiseb sy'n codi pryderon ynghylch mynediad teg at gyllid myfyrwyr i fyfyrwyr o Gymru sy'n gwneud cais i ddilyn cyrsiau gradd theatr gerdd a dawns mewn colegau arbenigol yn Lloegr 10,000 o lofnodion yn gyflym tua diwedd tymor y Senedd. Mae wedi cael ei gyfeirio ymlaen gyda'r bwriad o sicrhau trafodaeth gynnar yn y tymor newydd i'r pwyllgor olynol, ac i olynydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol barhau i graffu er mwyn sicrhau casgliad boddhaol i berfformwyr ifanc dawnus.

## Rheoleiddio amgylcheddol a pholisi

**43.** Mae'r Pwyllgor wedi ystyried nifer o ddeisebau sy'n ymwneud â rheoleiddio amgylcheddol – gan gynnwys rôl a swyddogaethau Cyfoeth Naturiol Cymru fel rheoleiddiwr ac mewn cysylltiad â chanolfannau ymwelwyr gwarchodfeydd natur – yn ogystal â pholisïau Llywodraeth Cymru i gyrraedd targedau newid hinsawdd a bioamrywiaeth. Denodd deiseb i atal dirywiad gwenoliaid duon trwy ychwanegu 'briciau gwenoliaid duon' at adeiladau newydd lawer o gefnogaeth ar draws y Siambr a thu hwnt.

**44.** Nodir bod ansawdd dŵr a rheoli llifogydd yn ddau faes i dynnu sylw atynt. Mae'r Pwyllgor wedi clywed pryderon ynghylch llygredd gwahanol afonydd, llifogydd yn effeithio ar dai, a dympio carthion mewn ardaloedd ymdrochi.

**45.** Ymwelodd y Pwyllgor â Chamlas Sir Fynwy a Brycheiniog ym mis Mehefin 2025, i ddeall y pryderon ynghylch diffyg dŵr – drwy'r ddeiseb, daeth amrywiaeth o randdeiliaid ynghyd, ac yn dilyn dadl fywiog, lluniodd y Llywodraeth grŵp i gytuno ar ffordd o ddiogelu atyniad economaidd, ecolegol a thwristaidd hanfodol.

**46.** Mae'r Pwyllgor hefyd yn cael deisebau'n rheolaidd sy'n ymwneud â materion cynllunio, ond fel y nodwyd eisoes, mae wedi cynnig newidiadau i ganllawiau ar gyfer deisebwyr, i egluro nad deisebau'r Senedd yw'r sianel briodol ar gyfer y pryderon hyn.

**47.** Roedd deiseb yn galw am "uwchgynhadledd i gyflymu buddsoddi cynaliadwy a moesegol gan bensiynau'r sector cyhoeddus", yn herio'r Aelodau i fyfyrio ar un o'r meysydd hynny sy'n croesi'r bwlch datganoli. Er bod pensiynau yn fater a gedwir yn ôl, y cwestiwn a godir yw sut mae cyrff cyhoeddus yn mynd i'r afael â her Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (sy'n ddeddfwriaeth

ddatganoledig), trwy eu buddsoddiadau pensiwn. Drwy ohebiaeth, llwyddom i ddarganfod beth oedd wedi digwydd ac oedd yn digwydd, yn y maes hwn.

## Trafnidiaeth Ddiogel a Hygyrch a diogelwch ffyrdd

**48.** Mae deisebau wedi mynd i'r afael â chludiant o'r cartref i'r ysgol, adfer gwasanaethau rheilffordd (yn genedlaethol ac yn lleol) a llwybrau bysiau penodol (y T2 yng Ngarndolbenmaen, bwcabus hyblyg, gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig, bysiau i Ysbyty'r Faenor).

**49.** Lluniodd y Pwyllgor adroddiad byr ar wasanaethau bysiau i bobl ifanc mewn ymateb i nifer o ddeisebau, a defnyddiodd hefyd waith a wnaed gan un o bwyllgorau Senedd Ieuenctid Cymru. Cafodd ein hargymhelliad – sef y dylid gwneud gwaith i baratoi'r ffordd ar gyfer teithio am ddim i bobl o dan 21 oed, hyd yn oed os nad yw'n fforddiadwy ar hyn o bryd – ei wrthod i ddechrau. Serch hynny, mae Llywodraeth Cymru wrthi'n treialu teithio am £1 i bobl o dan 21 oed.

**50.** Wrth gyflwyno Deddf Gwasanaethau Bysiau (Cymru) newydd, bydd hyn yn arwain at newid mawr yn y ffordd y darperir gwasanaethau bysiau yn ystod y Senedd nesaf. Byddem yn synnu pe na bai deisebau pellach wrth i'r newidiadau hynny ddod i rym, a bod teithwyr yn mynnu rhagor o lais yn y ddarpariaeth ac amlder y gwasanaethau.

**51.** Pan gyflwynwyd y terfyn cyflymder diofyn o 20mya, arweiniodd hynny at ddeiseb a dorrodd y record blaenorol ar gyfer llofnodion deiseb unigol – ac ail-luniodd y ddadl gyhoeddus ynghylch y mater. Roedd yn un o nifer o ddeisebau sydd wedi herio'r cyfyngiadau cyflymder o 20mya. Rydym hefyd wedi gweld deisebau yn herio'r terfynau 50mya ar rannau o'r M4, ac yn cefnogi Ffordd Liniaru'r M4.

### Terfyn cyflymder diofyn o 20mya

Gyda mwy na 460,000 o lofnodion, dyma oedd deiseb fwyaf y Senedd hyd yma o bell ffordd. Ac roedd yn un o lond llaw o ddeisebau yn ymwneud â'r newid. Roedd deiseb yn ceisio atal y newid rhag cael ei gyflwyno, ac un fawr ar ôl iddo gael ei gyflwyno. Cafwyd deisebau hefyd yn galw am refferendwm ar y mater. Cafodd dwsinau o ddeisebau eraill eu gwrthod am eu bod yn groes i'r rheol mai dim ond un ddeiseb y gellir ei chyflwyno ar yr un mater mewn cyfnod o 12 mis.

Sicrhaodd y ddeiseb ddadl yn y Siambr, a heriodd Weinidogion i fyfyrio ar agweddau'r cyhoedd. Wedi hynny, gorchmynnodd y Gweinidogion adolygiad, a

arweiniodd at nifer o ffyrdd yn cael eu hailasesu gan gynghorau Cymru a'u dychwelyd i 30mya yn dilyn ymgynghoriad lleol.

Er ei fod yn hynod amhoblogaidd wrth ei weithredu, mae'r gwerthusiad polisi cychwynnol yn dangos bod lleihau cyflymder wedi lleihau nifer y marwolaethau ac anafiadau ar ffyrdd Cymru, a gallai hyd yn oed leihau cost yswiriant ceir yn y dyfodol.

**52.** Ar yr un pryd, mae llawer o gymunedau ledled Cymru wedi defnyddio'r system ddeisebau i geisio gostyngiadau mewn cyflymder lle mae rhwydwaith y cefnffyrdd yn rhedeg drwy eu cymunedau. Ac rydym wedi gweld deisebau llwyddiannus i wella diogelwch ffyrdd mewn cyffyrdd drwg-enwog, gyda'r pwyllgor yn ymweld â ffyrdd A yn Sir Benfro a Sir Fynwy i weld y problemau drostynt eu hunain.

**53.** Roedd nifer sylweddol hefyd o ddeisebau posibl a gyflwynwyd yn gofyn am newidiadau i ffyrdd lleol na ellid eu derbyn oherwydd eu bod yn dod o dan gyfrifoldeb cynghorau lleol.

## Lles anifeiliaid

**54.** Yn ail i iechyd, materion lles anifeiliaid fu testun y deisebau a lofnodwyd fwyaf i'r Senedd ar hyd blynyddoedd. Yn ystod y tymor hwn, rydym wedi gweld deisebau yn ceisio gwahardd rasio milgwn; a gwrth-ddeiseb yn galw am ragor o gefnogaeth.

**Gwahardd rasio milgwn yng Nghymru**

Sicrhaodd y ddeiseb a gyflwynwyd gan Hope Rescue 35,100 o lofnodion.

Ar ôl cymryd tystiolaeth gan elusennau lles anifeiliaid, a ffigurau blaenllaw o'r byd chwaraeon, lluniodd y Pwyllgor adroddiad, 'Y Troad Terfynol?', a drafodwyd gan y Senedd yn y Cyfarfod Llawn ar 8 Mawrth 2023.

Roedd yr adroddiad yn annog y Llywodraeth i ymgynghori ar waharddiad. Yn dilyn yr ymgynghoriad hwnnw, disgwylir pleidlais derfynol cyn bo hir ar ddeddfwriaeth i gyflwyno gwaharddiad.




**55.** Rydym wedi ystyried rheoleiddio steilio cŵn, sut i atal baw cŵn ar gaeau chwaraeon, ac ar hyn o bryd, mae deiseb yn casglu llofnodion ar orfodaeth i ficrosglodio cathod. Mae tair deiseb wedi bod yn ymwneud â gwiwerod coch!

**56.** Mae'r Pwyllgor hefyd wedi treulio peth amser yn casglu tystiolaeth ar y proffesiwn milfeddygol yng Nghymru – proffesiwn sydd wedi trawsnewid dros y degawd diwethaf. Rhannwyd y dystiolaeth honno gyda'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd fel rhan o'i ymchwiliad i'r farchnad. Rydym yn edrych ymlaen at gyhoeddi ei adroddiad terfynol yn ddiweddarach eleni.

# Atodiad 1: Rhestr o ddadleuon o dan arweiniad y Pwyllgor

| Dyddiad | Deiseb |
|---|---|
| **8 Rhagfyr 2021** | Deddfau newydd i amddiffyn gwiwerod coch prin rhag colli cynefinoedd sy'n achosi dirywiad yn eu poblogaeth |
| **19 Ionawr 2022** | Adfer sgrinio serfigol i bob tair blynedd |
| **25 Mai 2022** | Darparu llwybr clinigol, gofal meddygol, ac arbenigwyr i bobl â syndrom Tourette yng Nghymru |
| **29 Mehefin 2022** | Ymestyn adran 25B o Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 |
| **29 Mehefin 2022** | Achub yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys. Rhaid i Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg gadw gofal brys 24 awr, 7 diwrnod yr wythnos, dan arweiniad meddyg ymgynghorol |
| **19 Hydref 2022** | Peidiwch â gadael cleifion â chanser y fron metastatig yng Nghymru y tu ôl |
| **30 Tachwedd 2022** | Rhaid gwarchod mynyddoedd unigryw Cambria yng Nghanolbarth Cymru drwy eu dynodi yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol |
| **7 Rhagfyr 2022** | Deddf Mark Allen – rydym ni am weld gorsafoedd cortyn taflu o amgylch pob safle dŵr agored yng Nghymru |
| **8 Mawrth 2023** | Gwahardd rasio milgwn yng Nghymru |
| **10 Mai 2023** | Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i arwain y ffordd drwy gefnogi treialon wythnos waith pedwar diwrnod yng Nghymru |
| **28 Mehefin 2023** | Atal newid y terfynau cyflymder i 20mya ar 17 Medi. |
| **13 Medi 2023** | Prynu Sycharth, cartref Owain Glyndŵr, er mwyn cadw'r safle yn saff i genedlaethau'r dyfodol. |
| **27 Medi 2023** | Ariannu ymchwil brechlyn i amddiffyn gwiwerod coch rhag feirws marwol brech y gwiwerod |
| **18 Hydref 2023** | Gwneud cynlluniau rheoli cadwraeth yn orfodol ar gyfer henebion cofrestredig sydd mewn perygl megis Castell Rhiw'r Perrai |
| **22 Tachwedd 2023** | Cyflwyno mesurau diogelwch cynhwysfawr ar gyffordd 'Mynegbost' yr A477 |

| Dyddiad | Deiseb |
|---|---|
| **31 Ionawr 2024** | Dylid cynnig yr un cymorth ariannol ar gyfer gofal plant i rieni sy'n gweithio yng Nghymru â'r hyn sydd ar gael yn Lloegr<br>[Dylid darparu cynnig cyfatebol yng Nghymru i'r cynnig gofal plant newydd yn Lloegr, sef 15 awr, ar gyfer plant 2 flwydd oed o fis Ebrill 2024] |
| **1 Mai 2024** | Dylai'r Senedd graffu ar y sgandal mesuryddion rhagdalu yng Nghymru |
| **8 Mai 2024** | Diwygio Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 |
| **22 Mai 2024** | Rydym am i Lywodraeth Cymru ddiddymu'r gyfraith drychinebus ynghylch y terfyn cyflymder o 20mya |
| **26 Mehefin 2024** | Tyfu, nid torri, cyllid y Llyfrgell Genedlaethol, Amgueddfa Cymru a'r Comisiwn Brenhinol |
| **18 Medi 2024** | Amddiffyn adrannau iau Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru rhag cael eu cau |
| **9 Hydref 2024** | Darparu trafnidiaeth gyhoeddus am ddim a hygyrch i'r rhai o dan 18 oed yng Nghymru er mwyn lleihau allyriadau carbon a hybu twf |
| **9 Hydref 2024** | Atal Cyfoeth Naturiol Cymru rhag cau canolfannau ymwelwyr Bwlch Nant yr Arian, Coed y Brenin ac Ynyslas |
| **23 Hydref 2024** | Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i sicrhau y gall oedolion agored i niwed heb gerdyn banc dalu ag arian parod. |
| **6 Tachwedd 2024** | Adnoddau Teg a Digonol ar gyfer Practisau Cyffredinol yng Nghymru |
| **14 Mai 2025** | Gwahardd ffonau clyfar ym mhob ysgol yng Nghymru (gydag esemptiadau ar gyfer amgylchiadau eithriadol) |
| **4 Mehefin 2025** | Clustogfa orfodol 1000 metr ar gyfer yr holl chwareli newydd a phresennol |
| **18 Mehefin 2025** | Ailagor rheilffyrdd i gysylltu gogledd a de Cymru |
| **9 Gorffennaf 2025** | Diogelu cymeriad unigryw Camlas Sir Fynwy a Brycheiniog ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru. |
| **17 Medi 2025** | Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i fabwysiadu gwaith cynnal a chadw ystadau tai newydd gan awdurdodau lleol. |

| Dyddiad | Deiseb |
|---|---|
| **24 Medi 2025** | Llywodraeth Cymru i ddiogelu cyllid mewn addysg rhag toriadau Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol |
| **1 Hydref 2025** | Deddfu i sicrhau bod briciau gwenoliaid duon yn cael eu gosod ym mhob adeilad newydd yng Nghymru. |
| **22 Hydref 2025** | Diogelu gwasanaethau strôc llawn yn Ysbyty Bronglais; atal yr israddio i Drin a Throsglwyddo |
| **26 Tachwedd 2025** | Ymchwiliad cyhoeddus llawn i gau canolfannau Ambiwlans Awyr Cymru yng nghanolbarth a gogledd Cymru |
| **10 Rhagfyr 2025** | Rhoi diwedd ar ofal mewn coridorau yng Nghymru |
| **14 Ionawr 2026** | Adolygu'r holl ganllawiau ar gludiant rhwng y cartref a'r ysgol ar gyfer Cymru gyfan. Mynediad am ddim at addysg. |

# Atodiad 2: Aelodaeth y Pwyllgor yn ystod y Chweched Senedd

